## ATODLEN 3

## TALIADAU A PHENSIYNAU: MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

### *Deddf Llywodraeth Leol 1972*

1 (1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 94(5) (lwfansau llywodraeth leol i beidio â chyfrif fel buddiant ariannol at ddibenion gwahardd pleidleisio pan fo gan aelod fuddiant ariannol), ar ôl "1989" mewnosoder "or under any provision of Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(3) Mae adrannau 173 i 178 (lwfansau i aelodau) yn peidio â chael effaith.

(4) Yn adran 246(16) (cymhwyso darpariaethau ynghylch lwfansau awdurdodau lleol i ymddiriedolwyr siarter), ar ôl "above" mewnosoder "and (in relation to Wales) Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(5) Yn adran 249(4)(b) (lwfans nad yw'n daladwy i henaduriaid mygedol am fod yn bresennol mewn seremonïau dinesig), ar y diwedd mewnosoder "or Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".